Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

# Storm Berffaith:

## Yr Argyfwng Cyllido yn Gwthio Sector Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru i'r Dibyn

6 Hydref 2022

Hawlfraint © Cymorth i Ferched Cymru 2022. Cedwir pob hawl.



# Crynodeb Gweithredol

Mae pryder digynsail ar draws y sector trais yn erbyn menwyod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) fod nifer o ffactorau economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol yn croestorri i greu ‘strom berffaith’ sy’n llesteirio’n ddifrifol y gwaith o ddarparu gwasanaethau.

Bydd yr adroddiad hwn yn esbonio sut mae ffactorau fel Covid-19, Brexit, yr argyfwng costau byw, y galw mawr am wasanaethau, a diffyg cyllid cynaliadwy yn effeithio ar weithwyr rheng flaen ac ar y menywod a’r plant sydd angen cymorth arbenigol VAWDASV, mewn ffordd a allai achosi i’r sector ddirywio’n ddi-droi’n-ôl.

Mae staff arbenigol VAWDASV yn ddiwyro yn eu hymrwymiad i gefnogi’r rheini sydd wedi dioddef trais a chamdriniaeth, ac mae’n bwysig cydnabod yr effaith gorfforol, feddyliol ac emosiynol ddi-ildio a gaiff y gwaith hwn ar unigolion yn y sector.

Mae staff sy’n cefnogi oedolion a phlant sydd wedi goroesi VAWDASV wedi sicrhau bod gwasanaethau hanfodol, achub bywyd a chymorth bywyd, wedi parhau yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, yr her barhaus a chynyddol ddifrifol sy’n wynebu’r sector yw bod sefydliadau wedi’u llesteirio gan gyflogau is o’u cymharu â phroffesiynau tebyg, contractau tymor byr ansicr, a swyddi sydd â llwyth achosion mawr, gan gynnwys gwaith y tu allan i oriau.

Mewn gair, roedd sector arbenigol VAWDASV yn bodoli gydag adnoddau hynod gyfyngedig a chapasiti a oedd wedi’i ymestyn i’r eithaf, cyn i ni ystyried effaith lem y cynnydd sydyn mewn costau byw neu gyd-destunau diwylliannol a gwleidyddol esblygol ôl-Covid 19.

# Ar gipolwg

**Mae gwasanaethau rheng flaen yn parhau i weld galw mawr am eu gwasanaeth.** Mae trais yn erbyn menwyod yn endemig yng Nghymru, a chynyddodd y galw am wasanaethau arbenigol yn ystod pandemig Covid-19. Hyd yn hyn, nid yw hyn yn dangos unrhyw arwydd o gwympo, er gwaethaf y ffaith bod cyllid arbenigol wedi dod i ben, felly mae gwasanaethau rheng flaen yn darparu mwy gyda llai o adnoddau.

**Mae staff mewn gwasanaethau arbenigol yn cael llai o gyflog am yr un gwaith â staff yn y sector statudol.** Mae anghyfartaledd cyflog ar draws y sector yn arwain at argyfwng recriwtio a chadw staff. Caiff hyn effaith arbennig o ddwys ar wasanaethau ar gyfer **plant a phobl ifanc**.

**Mae Covid-19 wedi dwysáu anghydraddoldebau i fenywod a grwpiau lleiafrifol.** Cafodd pandemig Covid-19 effaith anghymesur ar fenwyod ac ar oroeswyr. Mae menywod yn fwy tebygol o fod ar gontractau ansicr, ac mae gwasanaethau yn parhau i wynebu heriau.

**Bydd menywod yn derbyn y gwaethaf o'r argyfwng costau byw.** Mewn sector sy'n cyflogi menywod yn bennaf, bydd yr argyfwng costau byw cynyddol yn effeithio'n anghymesur ar wasanaethau a staff rheng flaen. Heb gyflogau sy'n codi gyda chwyddiant, bydd y sector yn **parhau i golli staff sydd wedi ymgymhwyso a hyfforddi'n arbennig.**

Mae anwadalrwydd mewn contractau a chyllid yn golygu bod **trosiant staff yn uchel,** bod **angen adnoddau ychwanegol** i hyfforddi staff newydd, a bod **capasiti yn cael ei dynnu oddi ar wasanaethau craidd.**

Mae cyfuniad o'r ffactorau hyn yn arwain at **ludded, salwch ac absenoldeb staff,** sydd â chost ariannol ac emosiynol uchel i wasanaethau. Mae darparu gwasanaeth sydd wedi'i lywio gan drawma ac wedi'i arwain gan anghenion yn golygu sicrhau cysondeb a sefydlogrwydd i oroeswyr, yn enwedig i blant a phobl ifanc.

Mae arbenigedd gwasanaethau arbenigol yn greiddiol i gyflawni ein nod pennaf o roi diwedd ar VAWDASV yng Nghymru. Mae llwyddiant y sector yn y dyfodol yn gwbl ddibynnol ar ffocws clir a phenodedig ar atal ac ar ddarparu adnoddau cynaliadwy. Fodd bynnag, pan ddaeth y cyfle i fynd i'r afael â'r mater hwn yn uniongyrchol fel rhan o Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2022-2026) Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, roedd diffyg ymrwymiad amlwg i fodel cyllido cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol.

Mae'r Strategaeth yn siomi'r disgwyliadau o ran ymrwymo i fodel cyllido cynaliadwy ac, o wneud hynny, mae'n methu â chydnabod rôl ganolog hanfodol y sector arbenigol o ran cefnogi goroeswyr a gweithio i atal a dileu VAWDASV yng Nghyrmu, yn ogystal â'r sefyllfa bryderus y mae'r sector bellach yn ei chanfod ei hun ynddi.



# Penodau:


| | |
|---|---|
| Barn o'r Rheng Flaen: Beth mae Gwasanaethau Arbenigol VAWDASV yn ei Ddweud? | 1 |
| 'Cyflwr y Sector' | 3 |
| Anghyfartaledd cyflog | 5 |
| Plant a Phobl Ifanc | 6 |
| Effaith Covid-19 | 7 |
| Effaith yr Argyfwng Costau Byw | 8 |
| Canlyniadau Brexit | 10 |
| Astudiaethau Achos | 11 |
| Atebion | 14 |

# Barn o’r Rheng Flaen:

## Beth mae Gwasanaethau Arbenigol VAWDASV yn ei Ddweud?

Fel rhan o’n harolwg blynyddol o’n haelodau, gofynnwyd i wasanaethau wneud sylwadau ar gynaliadwyedd eu gwasanaethau yn y sefyllfa gyllido bresennol. Nodwyd y canlynol:

**Mae gwasanaethau arbenigol ac arbenigedd VAWDASV mewn perygl o gael eu colli,** yn enwedig i blant a phobl ifanc, lle mae diffyg ymrwymiadau ariannu parhaus a loteri cod post wedi creu diffyg darpariaeth.

> “Os na fydd cyllid hirdymor yn cael ei ennill, byddwn ni’n colli ein Gweithwyr Plant”

**Mae ansefydlogrwydd cyllid yn golygu bod recriwtio a chadw staff yn eithriadol o anodd,** mae hyn yn arwain at golli talent o’r sector ac mae’n bygwth y cymorth a ddarperir i oroeswyr.

> “Rydyn ni’n parhau i fod ar felin droed chwilio am gyllid parhaus ar gyfer prosiectau hanfodol sydd rhyngddyn nhw’n darparu cymorth uniongyrchol i 100 o unigolion (menywod a phlant) y flwyddyn”
>
> ---
>
> “Pan fydd staff yn symud ymlaen maen nhw’n mynd i rolau parhaol”

**Mae natur sbardunol y gwaith, sy’n aml yn gallu creu ail-drawma, yn cael effaith emosiynol enfawr ar y rheini sy’n gweithio yn y sector,** ac mae cyllidwyr yn aml yn ystyried bod goruchwyliaeth sydd wedi’i llywio gan drawma i gynorthwyo gyda hyn yn ‘fonws’ yn hytrach nag yn anghenraid.

> “Rydyn ni wedi dod â goruchwyliaeth glinigol ychwanegol ar gyfer ein staff. Mae’r goruchwyliwr clinigol wedi disgrifio’r trawma mae staff yn ei brofi fel trawma dioddefwyr rhyfel Afghanistan. Mae’r oruchwyliaeth yma’n cael ei darparu bob 6 wythnos ac mae’n costio 80 punt awr. Yn ddiweddar bu’n rhaid i un fenyw roi cymorth cyntaf i achub bywyd. Mae asesiadau risg uchel a diogelu’n digwydd drwy’r adeg.”

**Mae gwasanaethau arbenigol VAWDASV wedi gweithredu mentrau lles** megis oriau lles, gan gynnig mwy o gefnogaeth glinigol, ac adnoddau. Hyd yn oed pan fydd y cyllid yn brin, mae gwasanaethau arbenigol wedi addasu a chanfod ffyrdd arloesol o gadw morâl staff yn uchel. Fodd bynnag, pan fydd capasiti'n gyfyngedig oherwydd cyllid tymor byr, ochr yn ochr â phwysau'r cynnydd mewn rhestrau aros, y galw am wasanaethau a llwyth achosion cynyddol, mae angen dybryd i gydbwyso boddhad â swydd, capasiti, a chyflog.

> "I fi, nid cyflogau'n unig sy'n bwysig, mae'n llawer mwy na hynny, mae'r lle, y lleoliad, y diwylliant yn enfawr, sut rydych chi'n gofalu am eich staff, sut rydych chi'n eu gwobrwyo nhw"

**Er y gall addasu gwasanaethau a gweithredu mentrau lles gyfrannu tuag at gynnal amgylchedd ffeministaidd, dosturiol, rhaid i Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru arwain y cyfrifoldeb o fynd i'r afael â materion strwythurol, sylfaenol sy'n pennu'r paramedrau y gall y sector arbenigol weithredu ynddynt ac yn cyfyngu arnynt.**

> "Drwy gydol fy mywyd gwaith ar y rheng flaen, dwi'n teimlo mod i wedi profi cannoedd o gamdrinwyr wrth i fi weithio gyda menywod; gan wrando arnryn nhw ac ymwneud â'u profiad nhw, eu peryglon nhw yn y gorffennol, y presennol ac yn y dyfodol. Mae'n cael effaith niweidiol, os oes gennych chi empathi.  Mae gan y sector yma gleisiau sydd ddim yn dangos, ac mae amodau gwell/cael teimlo'n dda yn eich gwaith, yn hanfodol, nid dim ond yn fonws neis."

# ‘Cyflwr y Sector’


## Galw mawr parhaus am wasanaethau:

Ni leihaodd y galw am gymorth arbenigol VAWDASV pan ddechreuodd bygythiad pandemig Covid-19 leihau. Ers dechrau pandemig Covid-19 yn Ebrill 2020, mae llinell gymorth Byw Heb Ofn Cymru wedi derbyn 65,599 o gysylltiadau (57,944 galwad ffôn, 1,092 e-bost, 5,673 gwe-sgwrs, ac 845 neges destun).

**Cyfanswm y cysylltiadau ar gyfer Llinell Gymorth Byw Heb Ofn yn 2021/22 oedd 35,536, sy’n gynnydd o 18% ers 2020/21, pan oedd 30,063 o gysylltiadau.**

Mae hyn yn dangos bod y galw am gymorth wedi bod yn cynyddu’n raddol, ac nid yw’n dangos unrhyw arwydd o leihau ar hyn o bryd. Pan nad yw cyllid yn cydfynd â’r cysylltiadau cynyddol â Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, mae’n gosod gofynion ychwanegol ar staff y Llinell Gymorth sydd eisoes wedi cyrraedd y terfyn uchaf.

Ffigur I: Cyfanswm y cysylltiadau â Llinell Gymorth Byw Heb Ofn




## Cynnydd mewn Cymhlethdod Cysylltiadau:


Mae Cymorth i Ferched Cymru yn tracio cyfanswm y nifer o atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth arbenigol bob chwarter, yn ogystal â chyfanswm y nifer o oroeswyr sy’n cael eu cefnogi bob chwarter.

Gwelodd gwasanaethau yn y gymuned gynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau yn ystod cyfnod cynnar y pandemig (Chwarter 1 a Chwarter 2 20/21). Er bod lefelau atgyfeiriadau wedi gostwng o’r uchafbwynt hwnnw ac yna wedi sefydlogi, mae’r nifer cyfartalog o oroeswyr a gynorthwyir bob chwarter (6,159) yn parhau i fod **17.8% yn**

**uwch na lefelau cyn y pandemig** (5,224) ac mae'n dangos ychydig o duedd ar i fyny. Mae hyn yn dangos bod goroeswyr yn cael eu eu cefnogi am gyfnodau hirach ers y pandemig.

Fel y dangosir isod, mae cyfanswm y nifer o fenywod a phlant ag anghenion cymorth ychwanegol sy'n derbyn cymorth bob chwarter yn dangos tuedd sylweddol ar i fyny. Wedi'i gyfuno â'r duedd ychydig ar i fyny o niferoedd o oroeswyr sy'n derbyn cymorth bob chwarter, mae hyn yn dangos bod anghenion goroeswyr ar y cyfan yn dod yn fwy cymhleth.

Ffigur II: Nifer o anghenion ychwanegol goroeswyr a gefnogir gan aelod-wasanaethau




Gwelwyd ymchwydd yn y galw ar wasanaethau o ganlyniad i'r cynnydd mewn amlygrwydd trais ar sail rhywedd fel naratif yn y cyfryngau yn ystod y pandemig, ynghyd ag ymgyrchoedd proffil uchel gan lywodraeth genedlaethol a lleol ar drais yn erbyn menywod a merched. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw strategaeth ar waith i ateb y galw a grëwyd gan yr ymgyrchoedd hyn. Er bod arian ychwanegol ar gael drwy'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, nid taliadau cyffredinol oedd y rhain ond yn hytrach gyllid tymor byr ar gyfer mentrau wedi'u caffael yn gystadleuol. Yr effaith oedd bod y gwasanaethau arbenigol lleiaf, ac yn enwedig wasanaethau abenigol Cymru, dan anfantais ddifrifol, gan ychwanaegu at y loteri cod post ar gyfer goroeswyr.


# Anghyfartaledd Cyflog

Amlygodd adroddiad Cymorth y Sector Cymorth i Ferched Cymru 2021[1] fod cadw staff a'r cynnydd mewn colli talent yn fater hynod berthnasol sy'n wynebu gwasanaethau arbenigol. Un o'r rhesymau am hyn yw anghyfartaledd cyflog rhwng gwasanaethau statudol ac anstatudol.

Er enghraifft, mae ein haelodau ar hyn o bryd yn gallu cynnig tua **£20,541** ar gyfer rôl gweithiwr cymorth, tra bod cymdeithasau tai lleol yn cynnig rhwng **£24,000-£26,000** ar gyfer rolau tebyg. Hyd yn oed am rolau cyfatebol, mae gwasanaethau arbenigol yn derbyn cyllid sylweddol is i dalu am gyflogau staff. Er enghraifft, mae gan Gynghorydd Trais Rhywiol mewn canolfan argyfwng treisio gyflog o tua **£27,444**, ond gall Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) sydd wedi'u rhedeg gan y sector statudol gynnig cyflogau o **£35,000** yn yr un ardal leol.

Mae'r anghydraddoldeb hwn yn arbennig o amlwg mewn rolau arbenigol ym maes plant a phobl ifanc, lle mae rôl gyffredin gyda phlant a phobl ifanc mewn awdurdod lleol yn talu **9.1% yn uwch** na'r rheini yn y sector VAWDASV, sydd hefyd yn gofyn am arbenigedd a sgiliau ychwanegol. Mae'r sector arbenigol yn gweithio o fewn cyfyngiadau cyllideb dynn ac felly mae ganddo lai o hyblygrwydd na sefydliadau eraill a sectorau eraill i godi cyflogau i ddenu staff priodol pan fydd angen.

Ffigur III: Anghysondebau cyflog rhwng staff mewn sectorau statudol ac anstatudol




1 https://pdf.browsealoud.com/PDFViewer/_Desktop/viewer.aspx?file=https://pdf.browsealoud.com/StreamingProxy.ashx?url=https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2021/10/State-of-the- Sector-2021-ENG-1.pdf&opts=www.welshwomensaid.org.uk#langidsrc=en-gb&locale=en-gb&dom=www.welshwomensaid.org.uk

# Plant a Phobl Ifanc

Mae yna blant yng Nghymru sy'n profi trais ac sydd angen mynediad cyson at gymorth o safon uchel sydd wedi'i arwain gan anghenion a'i lywio gan drawma.

Eleni, comisiynwyd Cymorth i Ferched Cymru i lunio adroddiad 'Dyletswydd i Adrodd',[2] astudiaeth arbennig sy'n adolygu'r cymorth i blant a phobl ifanc sy'n profi camdriniaeth yng Nghymru. Canfu'r adroddiad hwn fod 'loteri cod post' o fynediad i wasanaethau cymorth, wedi'i gyfuno yn aml â chylchoedd ariannu blynyddol ansicr, yn effeithio ar ansawdd a chysondeb y cymorth a ddarperir. Mae'r sefyllfa hon wedi'i dwysáu ymhellach gan yr argyfwng y soniwyd amdano eisoes o ran recriwtio a chadw staff yn y sector.

"Mae cadw'r un aelod o staff yn hanfodol o ran meithrin perthnasoedd gyda phobl ifanc a chydag ysgolion" - Gwasanaeth Arbenigol VAWDASV

Ymhlith canfyddiadau eraill yr adroddiad mae'r canlynol:

Mae plant a phobl ifanc yn ffurfio canran fach yn unig o'r bobl a gefnogir gan wasanaethau VAWDASV yng Nghymru, er bod tua un o bob pum plentyn yn dod i gysylltiad â cham-drin domestig. Mae hyn yn dangos yr angen am gynnydd mewn cyllid penodedig ar gyfer gweithwyr sector arbenigol plant a phobl ifanc o fewn gwasanaethau.

Mae anghysondebau ar draws awdurdodau lleol ynghylch sut y categoreiddir cyllid ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc, gan awgrymu nad yw hyn yn faes blaenoriaeth i lawer o awdurdodau.

Mae gan lai na 20% o awdurdodau lleol Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc penodedig neu ni allant gyfeirio at y pwyllgor sy'n gyfrifol am y materion hyn.

Mae canfyddiadau ychwanegol yn amlygu'r ffaith bod y ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn 'gyfyngedig, yn fratiog ac yn amrywio'n enfawr a hynny ar y cyfan oherwydd cyllid anghynaliadwy, anghyson ac, mewn rhai achosion, ddiffyg cyllid o gwbl ar gyfer gwasanaethau penodedig ar gyfer plant a phobl ifanc'.

2 https://pdf.browsealoud.com/PDFViewer/_Desktop/viewer.aspx?file=https://pdf.browsealoud.com/StreamingProxy.ashx?url=https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/06/CYP-FOI-Report-ENG-WWA.pdf&opts=www.welshwomensaid.org.uk#langidsrc=en-gb&locale=en-gb&dom=www.welshwomensaid.org.uk

# Effaith COVID-19

Canfu ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb Menywod Tŷ'r Cyffredin[3] i effaith ryweddol pandemig COVID-19 fod menywod yn fwy tebygol na dynion o weithio'n rhan amser neu mewn cyflogaeth wirfoddol, ac mai menywod yw mwyafrif y rhai ar gontractau dros dro a chontractau dim oriau. Mae menywod hefyd yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn swyddi sy'n talu islaw'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn golygu bod y contractau dros dro, sy'n anghenrheidiol o ganlyniad i'r cyllid ansicr, yn effeithio'n anghymesur ar fenywod yn y sector.

At hyn, er bod y cyfnod clo a'r cyfyngiadau wedi dod i ben, mae effeithau'r pandemig i'w teimlo'n amlwg yn y sector, ac awgryma'r dystiolaeth y bydd y sgil effeithiau i oroeswyr yn parhau am gyfnod hir i ddod.

Yn chwarter cyntaf 2021-22, nododd 56% o aelodau drafferthion cyllid o ganlyniad i COVID. Dywedodd mwy na hanner (59%) yr ymatebwyr iddynt gael mynediad at gyllid COVID-benodol yn ystod y cyfnod hwn. Gostyngodd hyn i 40% yn Ch2 ac yna i 33% yn Ch3.

Pan ofynnwyd am bryderon wrth symud ymlaen o ganlyniad i COVID-19, roedd cyllid yn fater o bryder enfawr i aelodau yn ystod Ch2 a Ch3 gyda gwasanaethau yn gwneud sylwadau'n benodol ar sut y cânt eu heffeithio wrth i gyllid tymor byr COVID ddod i ben tra bod y galw am wasanaethau yn parhau yn uchel.

"Er bod y cyllid yn ystod COVID-19 wedi cael croeso mawr, mae pryderon am gynaliadwyedd y gwasanaethau a'r cyllid. Rydyn ni wedi gweithredu nifer o brosiectau newydd i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth ond serch hynny, oherwydd natur tymor byr y cyllid, rydyn ni bellach yn gorfod cael gafael ar gyllid hirdymor ychwanegol i sicrhau cynaliadwyedd fyddwn ni ddim yn ei gael drwy gyllid tymor byr llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru."

---

"Gan fod y cyllid yn gallu bod am gyfnod byr, mae hyn yn ei gynnig ei hun i gael gweithwyr llawrydd neu gontractau tymor byr yn unig. Rydyn ni bob amser yn ymwybodol fod cadw staff yn bryder, pan all staff fod yn ansicr am barhad eu swyddi."

---

"Er bod croeso i'r cyllid yma, mae'n codi heriau/pryderon o ran recriwtio i rolau a chynaliadwyedd mwy hirdymor y capasiti ychwanegol yma. Beth sy'n mynd i ddigwydd ar ôl Mawrth 2023 yn enwedig os bydd y galw am wasanaeth wedi cynyddu a disgwyliadau am lefel y ddarpariaeth?"

3 https://publications.parliament.uk/pa/cm5801/cmselect/cmwomeq/385/38502.htm

Mewn cyfnod o gynnydd yn y galw ar wasanaethau, mae pandemig Covid-19 hefyd wedi effeithio'n andwyol ar absenoldeb a lles staff. Mae gan Gymru y gyfradd uchaf o salwch yn y DU[4] ac mae hynny wedi' rhwystro'r gweithle ar draws y sector ac wedi effeithio ar y lefel bosibl o recriwtiaid. Rhaid peidio â thanbrisio lludded emosiynol gweithio ar y rheng flaen yn ystod pandemig byd-eang. Mae colli cyfeillion ac anwyliaid a gofalu am aelodau sâl o'r teulu tra'n gweithio mewn amgylchedd sy'n emosiynol ddinistriol ac sy'n ysgogi trawma yn anghynaliadwy ac mae'n parhau i fod yn gatalydd i staff sy'n dewis gyrfaoedd y tu allan i'r sector.

Mae newid mewn arferion gweithio oherwydd y pandemig hefyd wedi amharu ar ymdrechion recriwtio i lenwi'r bylchau hyn. Bellach mae gan recriwtiaid posibl lawer mwy o gyfleoedd i ymgeisio am swyddi lle gallant weithio o bell neu weithio gartref, sy'n gallu gwneud i rolau rheng flaen mewn gwasanaethau ymddangos yn llai atyniadaol.

# Effaith yr Argyfwng Costau Byw

Mae'r argyfwng costau byw yn parhau i fod yn bryder cyffredinol ac nid yw'n dangos unrhyw arwydd o leihau. Mae Data Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (gweler Ffigur IV) yn dangos bod costau byw yn codi ar raddfa frawychus, a nododd y Women's Budget Group y bydd y cynnydd mewn costau byw yn taro'r tlotaf waethaf. Yn aml mae gan fenywod lefelau is o gynilion a chyfoeth ac maen nhw'n llai abl na dynion i gynyddu eu horiau gwaith cyflogedig. Mae hyn hefyd yn effeithio'n anghymesur ar fenywod o grwpiau lleiafrifol ethnig, menywod anabl, rhieni sengl, menywod sydd heb hawl i gael arian cyhoeddus, a goroeswyr VAWDASV.

Mae'r argyfwng costau byw eisoes yn cael effaith sylweddol ar staff yn y sector. Dangosodd adroddiad Cyflwr y Sector 2021[5] mai **£20,541** ar gyfartaledd oedd cyflog gweithwyr cymorth mewn aelod-wasanaethau. Ar y gyfradd chwyddiant bresennol o 8.6%, a heb unrhyw godiadau cyflog fel y gwelwn ar draws y sector, bydd gweithiwr cymorth presennol yn derbyn **£1,766.53 yn llai** eleni na'r llynedd. Byddai angen i'r cyflog a addasir gan chwyddiant fod yn **£22,307.53**.

Gan ddefnyddio cyflog cyfartalog ISVA argyfwng treisio o **£27,444**, ar y gyfradd chwyddiant bresennol o 8.6% a heb unrhyw godiadau cyflog fel y gwelwn ar draws y

4 https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/labourproductivity/articles/sicknessabsenceinthelabourmarket/2021#groups-with-the-highest-sickness-absence-rates – figure 4.
5 https://pdf.browsealoud.com/PDFViewer/_Desktop/viewer.aspx?file=https://pdf.browsealoud.com/StreamingProxy.ashx?url=https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2021/10/State-of-the-Sector-2021-ENG-1.pdf&opts=www.welshwomensaid.org.uk#langidsrc=en-gb&locale=en-gb&dom=www.welshwomensaid.org.uk


sector, bydd yr ISVA presennol yn derbyn **£2,360.18 yn llai** eleni na'r llynedd. Byddai angen i'r cyflog a addasir gan chwyddiant fod yn **£29,804.18**.

Pan fo sefydliadau yn rhedeg gwasanaethau uniongyrchol, mae costau rhedeg hefyd yn cynyddu yn unol â chwyddiant. Ariennir llawer o wasanaethau mewn cylch blynyddol, sy'n golygu nad yw costau rhedeg cyfredol yn adlewyrchu prisiau cyfredol amwynderau megis dŵr, nwy a thrydan. Lle bo anghyfartaledd, mae'n rhaid i wasanaethau ysgwyddo'r baich ariannol, sy'n eu gosod mewn sefyllfa ariannol ansicr, fel yr enghraifft isod:

> "Dwi ddim yn gwybod sut byddwn ni'n gwneud iawn am y diffyg. Ydyn ni'n diffodd y gwres yn ein llochesi a'n swyddfeydd ni lle mae goroeswyr yn dod pan maen nhw mewn argyfwng?"

O'r herwydd, mae pryderon bod gweithwyr mewn gwasanaethau rheng flaen a'r gwasanaethau eu hunain yn teimlo effaith yr argyfwng hwn mewn modd arbennig o acíwt, ac os na chaiff sefydliadau yr adnoddau i fynd i'r afael â hyn, byddwn yn gweld mwy o staff yn gadael y sector, a mwy o wasanaethau mewn caledi ariannol.

Ffigur IV: Data Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr Y Swyddfa Ystadegau Gwladol ers dechrau pandemig COVID-19



# Canlyniadau Brexit

Bydd diogelwch y sector arbenigol yng Nghymru dan fwy o fygythiad gan nad yw'r DU bellach yn rhan o'r UE.

Rhwng 2014-2020, addawodd yr UE £9.13 biliwn mewn Cronfeydd Strwythurol i'r DU. Derbynioddd Cymru tua £370 miliwn o'r gronfa hon yn flynyddol ac mae'r swm hwn wedi bod yn hanfodol er mwyn cynnal gwasanaethau menywod. Fodd bynnag, mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a fydd yn gweithredu yn ei lle, £730 miliwn yn llai.

Mae hyn yn bryder difrifol nid yn unig ar gyfer cynnal gwasanaethau arbenigol VAWDASV, ond hefyd ar gyfer gwasanaethau cymunedol ehangach.[6] Yn ychwanegol at y pryder hwn yw'r ffaith mai ychydig iawn o ymgysylltu y mae Awdurdodau Lleol wedi'i wneud â'r sector ar sut y bydd elfennau penodol o'r gronfa hon yn cael eu gwireddu. Yn benodol, mae'r elfen Pobl a Sgiliau yn sôn am ddatblygu sgiliau menywod sydd wedi profi trawma, ac mae elfen Cymunedau a Lleoedd y gronfa yn debygol o gwmpasu aflonyddu ar y stryd a diogelwch menywod mewn mannau cyhoeddus; dau faes allweddol y gall y sector gynnig arbenigedd sylweddol yn eu cylch nad yw'n cael ei geisio mewn ffordd ystyrlon gan Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd.

Mae nifer o gynlluniau a oedd yn ariannu naill ai wasanaethau neu ymchwil yn y sector bellach wedi dod i ben heb unrhyw ddarpariaeth yn eu lle. Er enghraifft, roedd gan 'Horizon 2020', a barodd o 2014-2020, gyllideb o 80 biliwn Ewro, gyda 83 miliwn ohono yn ariannu prosiectau yng Nghymru.[7]

Felly hefyd y Gronfa Cynwhysiant Gweithredol a reolwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru tan eleni, ond ni all y sector gael mynediad at y cymorth hwn bellach. Rydym yn gwybod bod rhai aelodau wedi derbyn cyllid o'r ffynhonnell hon yn y gorffennol ac y cânt eu heffeithio gan ei habsenodeb eleni.

6 https://business.senedd.wales/documents/s104709/EUP04%20Welsh%20Womens%20Aid%20English%20only.pdf

7 https://welshwomensaid.sharepoint.com/sites/WWA/Shared/Forms/AllItems.aspx?id=%2Fsites%2FWWA%2FShared%2FResearch%20%26%20Resources%20NEW%20FOLDER%202019%2FBrexit%20%2B%20Women%2F171213%2Dregional%2Dinvestment%2Dafter%2Dbrexit%2Den%2Epdf&parent=%2Fsites%2FWWA %2FShared

# Astudiaethau Achos

Siaradom ag aelod-wasanaethau i'n helpu i ddangos tystiolaeth o sut mae'r materion hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar ddarpariaeth. Isod rydym yn cyflwyno dyfyniadau wedi'u golygu sy'n amlygu difrifoldeb y sefyllfa.

## Astudiaeth Achos 1

"Daeth COVID-19 â rhai o'r problemau cynhenid i'r amlwg gyda'r ffordd y mae llochesi'n cael eu hariannu. Roedd ystafelloedd gwag am gyfnodau estynedig yn ystod y pandemig [oherwydd heintiau Covid-19 ac ati] yn golygu nad oedden ni'n gallu hawlio budd-dal tai ar gyfer yr ystafelloedd hynny – sydd fel arfer yn cael ei ddefnyddio i dalu cost rhent, cyfleustodau, gweinyddu ac ati. O ganlyniad i leoedd gwag mewn llochesi yn unig, roedden ni dros £40,000 ar ein colled yn ystod 2020-2021.

Mae cyllid ychwanegol/argyfwng gawson ni drwy ein hawdurdod lleol yn ystod y pandemig wedi parhau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, diolch am hynny. Mae ein cyngor wir wedi camu i'r adwy ac wedi rhoi codiad sylweddol i ni o ychydig dros 35% er mwyn i ni allu parhau i ateb y galw cynyddol ar ein gwasanaethau.

Serch hynny, mae'r ffordd y mae mannau llochesi'n cael eu hariannu yn parhau i fod yn broblem i ni, yn ogystal â natur tymor byr llawer o arian grant, a'r aros hir i glywed canlyniad rhai ceisiadau am gyllid. Mae hyn yn gadael rhai prosiectau a'u staff mewn limbo, heb wybod a fydd eu prosiect yn gallu parhau."

## Astudiaeth Achos 2

"Maer' pandemig wedi tanseilio diogelwch goroeswyr yn sylweddol. Mae gweithio gartref parhaus yn golygu bod goroeswyr gartref gyda drwg weithredwyr yn gyson. Mae cam-drin yn fwy parhaus a hir, ac ni allwn ni weld hyn yn newid. Fel gwasanaeth rydyn ni'n wynebu cynnydd enfawr yn y galw. Yn gyffredinol, rydyn ni wedi gweld cynnydd o 40% yn y galw am ein gwasanaethau, gyda chynnydd o 73% yn y galw penodol am ein gwasanaeth IDVA service. Ar hyn o bryd, mae 180 o blant ar ein rhestr aros am gymorth i blant a phobl ifanc. Mae goroeswyr sy'n cael mynediad at ein cymorth yn rheoli tlodi ynni a bwyd sy'n gwaethygu. Yn yr un modd rydyn ni'n cefnogi mwy a mwy o oroeswyr sydd wedi'u heffeithio gan lefel uchel o salwch meddwl. Er mwyn sicrhau bod gan ein gweithwyr arbenigol yr

## Astudiaeth Achos 2 parhad...

adnoddau i ddiwallu'r angen yma, mae angen i ni fuddsoddi llawer o'n cyllid ar gyfer argyfwng Covid mewn hyfforddiant arbenigol. Mewn mannau eraill, mae recriwtio'n parhau i fod yn bryder gwirioneddol ac mae dod o hyd i ymgeiswyr addas sy'n gallu derbyn contractau tymor penodol yn gynyddol anodd. Mae cyllid Covid wedi'n galluogi ni i gynnig mentrau achub bywyd newydd fel gwella diogelwch ymarferol i gynyddu diogelwch cartrefi goroeswyr, ond daw hyn i ben heb gyllid pellach. Taflodd y pandemig oleuni ar gam-drin domestig, ond rydyn ni'n arwain goroeswyr at fethiant pan fyddwn ni'n dweud wrthyn nhw am gyflwyno'u hunain, i geisio cymorth, ond yna yn methu ariannu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw"

## Astudiaeth Achos 3

"Cynnydd mewn costau byw, yn enwedig cyfleustodau, sy'n effeithio ar gostau darparu'r lloches a chostau cyffredinol y swyddfa. Gwasanaethau wedi'u comisiynu (h.y. lloches) ddim yn cynyddu cyllidebau i adlewyrchu chwyddiant, neu newidiadau treth/Yswiriant Cenedlaethol. Costau uwch ar gyfer glanhau a chyfarpar diogelu personol sydd mewn grym o hyd ar gyfer Covid.

Rhagweld bod cynnydd mewn cyfleustodau yn arwain at fwy o fenywod yn methu â thalu taliadau personol, gan arwain at yr elusen yn talu'r costau.

I bob pwrpas mae cyflogau wedi'u capio gan gomisiynwyr heb unrhyw allu i roi codiadau cyflog /costau byw, gan arwain at gynnydd mewn trosiant staff. O fewn ein gwasanaeth trais rhywiol, does dim capasiti o fewn y ffrydiau cyllido ar gyfer staff llanw os bydd rhywun yn sâl. Mae hyn wedi gosod pwysau dychrynllyd ar dimau sy'n codi llwythi gwaith."

## Astudiaeth Achos 4

"Ar ôl gweithio yn y sector VAWDSV am dros 30 mlynedd, dwi erioed wedi gweld y fath bwysau ar ein gwasanaethau gyda chyn lleied o olau ar ddiwedd y twnnel. Mae'n ddi-flino ac yn annerbyniol i'r tîm staff a'r teuluoedd rydyn ni'n eu cefnogi sydd, yn gwbl briodol, yn disgwyl y gwasanaeth gorau posibl. Mae'r tîm staff yn parhau i fynd oherwydd eu hymrwymiad llwyr i'r menywod a'r plant rydyn ni'n eu cefnogi, sy'n wirineddol ysbrydoledig, ond mae hyn yn aml ar gost eu lles eu hunain. Sut gall hyn fod yn iawn?"

## Astudiaeth Achos 5

"Un o'r ffynonellau allweddol o gyllid mae ein gwasanaethau cam-drin domestig [aelod-wasanethau] yn dibynnu arni yw Grant Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru. I wneud cais am y cyllid hwn bob blwyddyn, ar gyfer pob un o'n gwasanaethau – gan gynnwys ein prosiect cymorth lle bo'r angen, a'n llochesi – rydyn ni'n llenwi ffurflenni manwl gan nodi i'r geiniog faint maen nhw'n costio i'w rhedeg, gan gynnwys rhent a biliau ynni. Eleni, fe wnaethon ni gyflwyno ein ffurflenni yn dangos cynnydd mewn biliau ynni a rhent ar draws ein holl safleoedd, ond rydyn ni wedi cael gwybod y bydd cyllid ar sail costau'r blynyddoedd diwethaf. Eleni bydd hyn yn golygu diffyg o ryw £5000 ar gyfer ein prosiect cymorth lle bo'r angen, a £1500 i bob un o'n llochesi. Rydyn ni'n gwybod y bydd costau yn parhau i gynyddu'n ddychrynllyd. Dwi ddim yn gwybod sut byddwn ni'n gwneud iawn am y diffyg. Ydyn ni'n diffodd y gwres yn ein llochesi ac yn ein swyddfeydd lle mae goroeswyr yn dod pan fyddan nhw mewn argyfwng?"

## Astudiaeth Achos 6

"Mae atgyfeiriadau [trais rhywiol] wedi bod yn cynyddu'n gyson am sawl blwyddyn cyn y pandemig, ond mae'r pandemig wedi cyflymu hyn yn sylweddol, yn ogystal â chleientiaid ag anghenion mwy cymhleth sydd angen cymorth ac adnoddau ychwanegol yn ogysatl â therapi mwy hirdymor. O ystyried hyn a'r argyfwng costau byw, rydyn ni'n barod yn gweld cynnydd pellach mewn atgyfeiriadau ac anghenion cleientiaid sy'n ychwanegu at y pwysau ar staff sydd eisoes o dan straen. Mewn mannau eraill, mae atgyfeiriadau plant a phobl ifanc wedi dyblu o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae cyfraddau atgyfeiriadau yn dal i gynyddu, yn ogystal â chymhlethdod achosion. Rydyn ni bellach yn ymwneud yn rheolaidd â chefnogi cynlluniau diogelwch amlasiantaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu hystyried yn risg eithriadol o uchel; sy'n arddangos ymddygiad treisgar lle mae yna fygythiad posibl i fywyd (iddyn nhw eu hunain ac eraill). Roedd hyn yn digwydd yn anaml cyn Covid ond erbyn hyn mae'n ddigwyddiad rheolaidd. Mae diogelu risg hefyd wedi cynyddu'n sylweddol ar draws gwasanaethau oedolion, gan arwain at fwy o waith amlasiantaeth, atgyfeiriadau a chynlluniau cymorth. Mae hyn oll yn cael effaith sylweddol ar y sefydliad ac, yn bwysicaf oll, ar les ein staff."

# Atebion

Mae'r staff sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan y 'storm berffaith' hon yn weithwyr allweddol a rhaid iddynt gael eu cefnogi a'u talu'n briodol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu'r gwaith achub bywyd hwn.

Fodd bynnag, mae blynyddoedd o gyllid annigonol, diffyg blaenoriaethu, diffyg adnoddau, a'r ffaith bod y gwasanaethau hyn yn gweithreu heb fawr egni, yn golygu y gallai anawsterau pellach yn y misoedd i ddod ddinistrio'r ddarpariaeth yn gyfan gwbl.

Mae'r gofynion a gyflwynir isod yn atebion uniongyrchol i'r materion a godwyd drwy gydol yr adroddiad, wedi'u cefnogi gan ddata a phrofiadau. Mae angen eu gweithredu ar frys i ddod â'r sector yn ôl o'r dibyn.

**Ateb 1. Ymrwymiad i gylchoedd ariannu tair i bum mlynedd**
Mae cylchoedd ariannu hwy yn caniatáu cynllunio strategol, arfer arloesol, cymorth gyda recriwtio a chadw staff, ac yn gwella allgymorth a mynediad at gymorth. Mae strategaeth newydd VAWDASV Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y problemau a achosir gan gyllido tymor byr ond mae'n ddiffygiol o ran ymrwymo i sicrhau cylchoedd ariannu cynaliadwy mwy hirdymor fel datrysiad. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru adolygu a datrys hyn fel mater o frys.

**Ateb 2. Cyllid sy'n gysylltiedig â chwyddiant**
Bydd cost rhedeg gwasanaeth yn cynyddu gyda chwyddiant. Dylid derbyn hyn a'i ymgorffori fel rhan safonol o gontractau, er mwyn sicrhau y gellir talu am amwynderau sylfaenol yn gyson, heb fod ar draul cymorth.

**Ateb 3. Cyllid ymateb i argyfwng**
Dylai gwasanaethau a gomisiynir ganol cylch ariannu, nad ydynt yn gysylltiedig â chwyddiant, dderbyn cymorth ariannol ychwanegol i fynd i'r afael ag effeithiau uniongyrchol costau uwch cyfleustodau ar eu cyllidebau union gytbwys.  Gwelwyd tystiolaeth yn ystod y pandemig y gall, ac y dylai, comisiynwyr ddarparu cyllid ychwanegol mewn ymateb i argyfyngau.

**Ateb 4. Darparu contractau cyllido sy'n galluogi gwasanaethau arbenigol trydydd sector gynnig contractau cyfatebol i rai awdurdodau lleol**
Hyd nes y bydd cydraddoldeb cyflog a budd-daliadau ar gyfer rolau cyfatebol, boed rheini'n rhai a ddarperir gan wasanaethau trydydd sector neu awdurdodau lleol, bydd gwasanaethau arbenigol yn parhau i gael trosiant staff uchel a cholli staff. Mae ymrwymo o ran amser ac adnoddau i hyfforddi aelod o staff yn eu maes arbenigol a'r aelod o staff hwnnw wedyn yn derbyn cyflog uwch am rôl gyfatebol mewn awdurdod lleol yn dwysáu'r sefyllfa ymhellach. Mae'r sefyllfa bresennol yn dibrisio'r sector ac yn dorcalonnus a gostyngol i'r rheini sy'n gweithio oddi mewn iddo, gan wneud y gwaith o ddenu staff newydd yn eithriadol o anodd.

**Ateb 5. Darparu cyllid, fel rhan o gontractau, y gellir ei neilltuo ar gyfer datblygiad a lles staff**
Dylid cynnwys costau llawn hyfforddiant sy'n ofynnol gan y fframwaith hyfforddiant cenedlaethol, a mynediad at oruchwyliaeth glinigol wedi'i llywio gan drawma, yn y broses gomisiynu.

**Ateb 6. Ymrwymiad i leihau tendro cystadleuol a hyrwyddo Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol (NQSS): gwerth yn erbyn cost**
Mae'n rhaid sicrhau cysondeb â chanllawiau statudol o ran gwerth yn erbyn cost, er mwyn atal y 'ras i'r gwaelod' i weld pwy a all ddarparu gwasanaeth am yr arian lleiaf. Dylai'r ffocws fod ar gydweithredu gwrioneddol ac ansawdd y ddarpariaeth yn hytrach nag ar gystadleuaeth.

**Ateb 7. Canolbwyntio ar wasanaethau craidd sy'n seiliedig ar dystiolaeth**
Ni ddylid dyrannu arian yn unig ar sail pa mor 'arloesol' neu 'unigryw' y mae cynlluniau peilot a phrosiectau. Er y dylai comisiynu effeithiol annog arloesedd drwy hyblygrwydd o ran adnoddau a gwarantu cylchoedd ariannu, dylai comisiynwyr hefyd barhau i ariannu modelau cymorth profedig sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan ddarparwyr dibynadwy.

**Ateb 8. Blaenoriaethu ymyrraeth gynnar**
Caiff blaenoriaethu cynnar ei ddilorni'n gynyddol wrth i gostau byw frathu, er bod oedi ymyrraeth yn arwain at ofynion mwy cymhleth a chostus. Gan fod camau ymyrraeth gynnar yn debygol o fod yn gynt ac yn fwy effeithiol, dylai cyllidwyr a chomisiynwyr flaenoriaethu'r model hwn.



Cymorth i Ferched Cymru
Tŷ Pendragon, Caxton Place,
Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE

02920 541 551
info@welshwomensaid.org.uk

www.welshwomensaid.org.uk

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif 1140962 a yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, rhif 07483469.

Dilynwch ni:
@welshwomensaid

**Cymorth i Ferched Cymru**
**Welsh Women's Aid**
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First